Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cynllun cymhorthdal Llywodraeth Cymru ar gyfer Cost y Diwrnod Ysgol

Cyfeirnod y cymhorthdal SC11157 - nod y cymhorthdal yw rhoi gwybodaeth fanwl i ysgolion ac addysgwyr am brofiad bywyd o dlodi ac effaith tlodi ar addysg yn eu cymuned ysgol.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 16 Rhagfyr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 16 Rhagfyr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymhorthdal-ar-gyfer-cost-y-diwrnod-ysgol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Pwyntiau i'w nodi** (https://www.llyw.cymru#161129)

**Rhanbarth** (https://www.llyw.cymru#161131)

**Enw** (https://www.llyw.cymru#161133)

**Sail gyfreithiol** (https://www.llyw.cymru#161135)

**Amcanion** (https://www.llyw.cymru#161137)

**Awdurdodau cyhoeddus** (https://www.llyw.cymru#161139)

**Cymhwysedd** (https://www.llyw.cymru#161141)

**Sectorau** (https://www.llyw.cymru#161143)

**Hyd** (https://www.llyw.cymru#161145)

**Cyllideb** (https://www.llyw.cymru#161147)

**Ffurf y cymorth** (https://www.llyw.cymru#161149)

**Telerau ac amodau** (https://www.llyw.cymru#161151)

**Cyfrifo cymorthdaliadau** (https://www.llyw.cymru#161153)

**Uchafswm y cymhorthdal** (https://www.llyw.cymru#161155)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymhorthdal-ar-gyfer-cost-y-diwrnod-ysgol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Gwybodaeth gysylltu (https://www.llyw.cymru#161157)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymhorthdal-ar-gyfer-cost-y-diwrnod-ysgol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Pwyntiau i'w nodi

Os ydych yn defnyddio’r cynllun hwn i ddyfarnu cymorthdaliadau, rhaid ichi roi gwybod i’r Uned Rheoli Cymorthdaliadau drwy anfon e-bost i: **scu@gov.wales** (https://www.llyw.cymrumailto:scu@gov.wales).

# 1. Rhanbarth

Chwe ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn y cyfnod peilot.

# 2. Enw'r Cynllun Cymhorthdal

Cynllun Cymhorthdal Llywodraeth Cymru ar gyfer Cost y Diwrnod Ysgol

# 3. Sail gyfreithiol y DU

Gwneir y dyfarniad Cyllid hwn ar Amodau ac yn ddarostyngedig i Amodau ac o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru, sy’n gweithredu yn unol â swyddogaethau a drosglwyddwyd o dan adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

# 4. Amcanion polisi penodol y cynllun

Nod y cymhorthdal yw rhoi gwybodaeth fanwl i ysgolion ac addysgwyr am brofiad bywyd o dlodi ac effaith tlodi ar addysg yn eu cymuned ysgol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymhorthdal-ar-gyfer-cost-y-diwrnod-ysgol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Bydd y cymhorthdal yn cefnogi peilot cychwynnol gwaith 'prawfesur polisïau ar dlodi' ar raddfa fawr mewn clystyrau o ysgolion cysylltiedig, a elwir hefyd yn 'gymunedau dysgu'. Mae hyn yn cefnogi nodau datganedig **polisi addysg Llywodraeth Cymru** (https://www.llyw.cymru/ein-cenhadaeth-genedlaethol-araith) ac yn cefnogi Strategaeth Tlodi Plant 2024 yn uniongyrchol.

Bydd y cymhorthdal yn cefnogi gwaith i wneud addysg yn brofiad niwtral o ran cost ac i gael gwared ar rwystrau i bresenoldeb a chyrhaeddiad a achosir gan dlodi. Bydd y cymhorthdal yn cynhyrchu symiau mawr o ddata defnyddiadwy am effaith tlodi ar ddisgyblion o ystod o leoliadau ledled Cymru a fydd ar gael i ysgolion, clystyrau, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ac yna gellir defnyddio'r data i lywio gweithgareddau a gwaith yn y dyfodol.

Ceisir data ychwanegol i werthuso effaith y prosiect ac asesu ei allu i dyfu yn unol â'r anghenion ar gyfer ei gyflawni'n ehangach/yn genedlaethol. Y bwriad ar gyfer y peilot hwn yw mynd i'r afael â sail resymegol tegwch ymgysylltu mor gynnar â phosibl ym mywydau plant sy'n byw mewn tlodi er mwyn gwella eu canlyniadau iechyd, llesiant ac economaidd posibl i'r eithaf, o ystyried mai Cymru yw un o'r rhanbarthau tlotaf yn y DU ar hyn o bryd yn seiliedig ar GDP y pen.

## 5. Yr Awdurdod cyhoeddus sydd wedi’i awdurdodi i roi’r cynllun ar waith

Llywodraeth Cymru

## 6. Categorïau o fentrau sy’n gymwys

Y mentrau sy'n gymwys i gael cymorth yw partneriaid trydydd sector sydd â

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymhorthdal-ar-gyfer-cost-y-diwrnod-ysgol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

phrofiad yn y sector tlodi plant ac sydd â methodolegau priodol i ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau a dysgwyr â sensitifrwydd ac arbenigedd.

Er mwyn bod yn gymwys rhaid meddu ar hanes blaenorol o fynd i'r afael yn llwyddiannus â rhai o'r meysydd â blaenoriaeth allweddol a amlinellir yn y Strategaeth Tlodi Plant a'r gallu i weithredu yng Nghymru er mwyn cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag effaith barhaus tlodi ar gyfranogiad/ presenoldeb a chyrhaeddiad plant ym myd addysg.

## 7. Sector(au) a gefnogir

Addysg

## 8. Hyd y cynllun

22 Gorffennaf 2024 hyd 22 Gorffennaf 2029.

## 9. Cyllideb ar gyfer cymorth o dan y cynllun

£3,000,000 (amcangyfrif yn unig).

## 10. Ffurf y cymorth

Bydd yr holl gymhorthdal a ddyfernir o dan y cynllun yn cael ei ddyfarnu drwy grantiau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymhorthdal-ar-gyfer-cost-y-diwrnod-ysgol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## 11. Telerau ac amodau cymhwysedd

Er mwyn bod yn gymwys rhaid meddu ar hanes blaenorol o fynd i'r afael yn llwyddiannus â rhai o'r meysydd â blaenoriaeth allweddol a amlinellir yn y Strategaeth Tlodi Plant a'r gallu i weithredu yng Nghymru er mwyn cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag effaith barhaus tlodi ar gyfranogiad/ presenoldeb a chyrhaeddiad plant ym myd addysg.

## 12. Y sail ar gyfer cyfrifo cymorthdaliadau

Cyfrifir cymhorthdal ar sail cyllideb ddangosol fanwl ar gyfer prosiect peilot. Manylir ar y pethau penodol sydd i'w cyflawni a chytunir arnynt drwy ddyfarniad grant, gydag amserlenni clir wedi eu nodi. Bydd yr amodau ar gyfer sefydliadau sy'n cael cymhorthdal yn cynnwys:

- cyswllt rheolaidd â Llywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod cymhorthdal drwy ymgysylltiad wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan gynnwys, fel y bo'n berthnasol, grwpiau llywio prosiect rheolaidd a fynychir gan Lywodraeth Cymru
- cymryd rhan mewn gwaith monitro a gwerthuso, gan gynnwys, fel y bo'n briodol, rannu data â Llywodraeth Cymru
- adroddiadau ysgrifenedig ar weithgarwch i Lywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod cymhorthdal.

Bydd amserlen dalu yn cael ei sefydlu ar sail cyflawni allbynnau penodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymhorthdal-ar-gyfer-cost-y-diwrnod-ysgol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## 13. Uchafswm y cymhorthdal a ganiateir o dan y cynllun

£150,000.

## 14. Gwybodaeth gysylltu

**Yr Uned Rheoli Cymorthdaliadau**

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Y Deyrnas Unedig

**Rhif ffôn:** + 44 (0)3000 604 400
**E-bost:** **YrUnedRheoliCymorthdaliadau@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:YrUnedRheoliCymorthdaliadau@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg.

Uned Rheoli
Cymorthdaliadau
Subsidy
Control Unit

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymhorthdal-ar-gyfer-cost-y-diwrnod-ysgol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymhorthdal-ar-gyfer-cost-y-diwrnod-ysgol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).